

## THE ROMAN BATHS BATH

# Ymweld â'r Baddondai Rhufeinig

Y baddondai Rhufeinig yw un o'r safleoedd archaeolegol gorau eu cyflwr yng ngogledd Ewrop.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn treulio rhyw 1<sup>1</sup>/<sub>2</sub> awr yma. Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymweliad.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, gofynnwch i aelod o'r staff os gwelwch yn dda.

Mae teithiau tywys rhad ac am ddim yn cychwyn ger y Baddon Mawr bob awr, ar yr awr. Rhyw 30-40 munud o hyd yw'r teithiau a Saesneg yw'r iaith.

Mae dwy siop yn y Baddondai Rhufeinig ac mae croeso i chi ymweld â'r Ystafell Bwmp 18fed-ganrif ar ddiwedd eich ymweliad os am luniaeth ysgafn.

Peidiwch ag yfed dŵr o'r Baddonau os gwelwch yn dda! Mae dŵr ffynnon i'w yfed ar gael yn Ystafell y Pwmp. Mae'n rhad ac am ddim o ddangos eich tocyn mynediad.

Nodwch, os gwelwch yn dda, na chewch fwyta, yfed, gnoi gwm nac ysmegu ar y safle.

### Dŵr poeth

Mae tair ffynnon boeth yng Nghaerfaddon. Mae'r fwyaf, Ffynnon Sanctaidd y Rhufeiniaid, yn tarddu ar y safle hwn, o ddyfnder o ryw 3000m. Mae'r dŵr yn cynnwys 43 o wahanol fwynau ac mae rhyw 1,250,000 litr y dydd ohono'n llifo ar dymheredd cyson o 46.5°C. Codwyd y Deml a'r Baddondai Rhufeinig o amgylch y ffynnon boeth yma.

### Dechreuadau Rhufeinig

Sefydlwyd y sba Rhufeinig yng Nghaerfaddon (Aquae Sulis) wedi i'r Rhufeiniaid oresgyn Prydain yn 43 OC. Gwyddwn ar sail arysgrif ei bod yma erbyn 75 OC. Enwyd hi ar ôl duwies Geltaidd y Ffynnon, Sulis, a oedd yn cyfateb i'r dduwies Rufeinig Minerva. Adeiladwyd man colofnog a oedd yn cynnwys teml Sulis Minerva i'r gogledd i'r Ffynnon ac i'r de codwyd nifer o faddonau lle medrai'r ymdrochwyr ymolchi a chael iachâd rhag eu poenau. Roedd pwrpas deublyg i'r Ffynnon Sanctaidd. Roedd yn fan addoli, lle teflid offrymau i Sulis Minerva i'r dŵr, ac roedd hefyd yn gronfa a oedd yn cyflenwi'r Baddonau â dŵr poeth. Gan ei fod yn fan sanctaidd, ni châi neb nofio yno.


### Datblygiad pellach

Wedi i'r Rhufeiniaid ymadael, dinistriwyd y deml baganaidd ac aeth y baddonau â'u pen iddynt. Codwyd Baddondy'r Brenin yn y 12fed ganrif yn union uwchlaw'r Ffynnon Sanctaidd ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer ymdrochi iachaol a nofio. Yn y 18fed ganrif, daeth yfed dŵr ffynnon yn boblogaidd a chodwyd Ystafell y Pwmp ger Baddondy'r Brenin i ddiwallu'r galw. Dechreuwyd ailddarganfod y Baddondai Rhufeinig ar ddechrau'r 18fed ganrif, ond nid oedd gwir amcan gan neb bryd hynny mor helaeth oedd y safle Rhufeinig. Dim ond yn y 1880au y gwnaed gwaith cloddio ar ran fwyaf y Baddonau Rhufeinig ac y gwelwyd gwir faint y safle.

### Ar ddangos

Mae rhai o wrthrychau enwocaf Prydain yn oes y Rhufeiniaid i'w gweld yma. Cadwch lygad ar agor am bethau arbennig fel pediment Pen y Gorgon o'r deml; pen efydd goreurog y dduwies Sulis Minerva a'r gwrthrychau a gloddiwyd o'r Fynnon Sanctaidd. Mae rhai o'r eitemau eraill sydd ar ddangos yn cynnwys allorau a cherrig beddi sy'n cofnodi ymwelwyr milwrol a sifil â'r sba o bob rhan o'r Ymerodraeth Rufeinig.

## Y Baddondai Rhufeinig Lefel isaf



- 1 Y Ffynnon Sanctaidd
- 2 Eitemau o'r Ffynnon
- 3 Y Deml
- 4 Libart y Deml
- 5 Gwrthrychau o Brydain yn oes y Rhufeiniaid
- 6 Gorlif y Ffynnon
- 7 Y siop fach
- 8 Y Baddon Mawr
- 9 Baddonau'r Dwyrain
- 10 Baddonau'r Gorllewin

### Libart y Deml (4)

Yn y rhodfa uwchlaw'r Ffynnon Sanctaidd mae llawer o ddarnau arian, mellithion ac offrymau eraill i Sulis Minerva ar ddangos. Daethpwyd o hyd i'r rhain yn y Ffynnon Sanctaidd ym 1878 a 1979-80. Cloddiwyd yr ardal o dan Ystafell y Pwmp ym 1981-3, pan ddaeth y libart Rhufeinig palmentog o flaen y Deml a rhai o risiau'r Deml i'r golwg. Yn wreiddiol roedd y rhain yn yr awyr agored. Nid oes modd mynd at y deml ei hun. Ailgodwyd rhan o'r allor aberthu yma. Mae pen efydd goreuog Minerva, o'r cerflun o faint naturiol a safai yn y Deml, i'w weld ger Grisiau'r Deml.

### Y Baddonau

Mae'r Ffynnon Sanctaidd (1) yn byrlymu i gronfa ddŵr Rhufeinig a adeiladwyd i gynnwys y dyfroedd. Gosododd y Rhufeiniaid do bwaog dros y Ffynnon. Wedi iddynt ymadael, syrthiodd y to i ganol y Ffynnon. Tua 1100 codwyd Baddonau'r Brenin dros yr olion Rhufeinig. Cafodd ei ailwampio sawl tro ac mae'r hyn a welwch heddiw yn dyddio'n bennaf o'r 18fed a'r 19eg ganrif. Mae'r staeniau haearn oren yn dangos lefel y dŵr ers talwm. Heddiw, cedwir y dŵr ar yr un lefel â chyfnod y Rhufeiniaid.

Mae dŵr mwyn poeth o'r Ffynnon yn llifo i'r Baddon Mawr (8). Mae yna risiau o'i amgylch sy'n arwain at y gwaelod gwastad, 1.60m o ddyfnder, sydd wedi ei orchuddio o hyd â haen o blwm o gyfnod y Rhufeiniaid. Cododd y Rhufeiniaid fowt faril enfawr o gerrig nadd drosto, ac mae rhannau o hon i'w gweld gerllaw'r Baddon. Ar y naill ochr a'r llall mae cilfachau lle y gallai'r ymdrochwyr eistedd a sgysio, heb fod ger y dŵr. Mae yna ffynnon hanner ffordd ar hyd yr ochr ogleddol.

Yn wreiddiol, roedd Baddonau'r Dwyrain (9) yn cynnwys dau bwll llai lle llifau dŵr cynnes o'r Baddon Mawr. Cawsant eu hymestyn a'u hailddatblygu sawl tro dros gyfnod o 350 mlynedd. Roedd pileri'r hypocawst (gwres dan y llawr) yn cynnal lloriau concriid gydag addurn o frithwaith, ond dim ond un o'r rhain sydd wedi goroesi. Yn y baddon bychan, siâp hanner cylch, byddai ymwelwyr yn eistedd ar y fainc faen, hyd eu gyddfau mewn dŵr a lifai o'r Ffynnon ar hyd biben blwm.

Mae Baddonau'r Gorllewin (10) yn cynnwys y Baddon Crwn oer. Yn wreiddiol roedd hwn yn gyntedd i'r baddonau eraill. Yn ddiweddarach adeiladwyd y pwll crwn fel y medrai'r ymdrochwyr oedd yn gadael yr ystafelloedd cynnes cyfagos blymio i'w ddŵr oer. Fel Baddonau'r Dwyrain, baddonau stêm neu Dwrcaid oedd y rhain. Mae enghraifft wych o hypocawst i'w gweld yma. Bath oer arall yw'r bath olaf a welwch yn y gyfres.

Mae'r allanfa yn arwain at y toiledau, Siop y Baddondai Rhufeinig ac Ystafell y Pwmp - lle cewch fwynhau dŵr y ffynnon neu luniaeth ysgafn.

